# JONES, JOHN (1802 - 1863), gweinidog Undodaidd ac ysgolfeistr

**Enw:** John Jones
**Dyddiad geni:** 1802
**Dyddiad marw:** 1863
**Priod:** Anne Jones (née Rees)
**Plentyn:** Rees Jenkin Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Undodaidd ac ysgolfeistr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** Thomas Oswald Williams

Ganwyd 20 Gorffennaf 1802 ym Mhantlluest, Llanarth, Ceredigion. Fe'i haddysgwyd yn ysgol Davis Castellhywel a Choleg Caerfyrddin (1825-7). Yn 1831 agorodd ysgol yng Nghribin mewn cysylltiad â'r Parch. Rees Davies. Yn ystod yr amser hwn pregethai yn achlysurol ym Mhantydefaid. Yn Chwefror 1833 ymsefydlodd yn weinidog ar Hen D  Cwrdd Aberdâr, gan agor ysgol ramadeg ar Heol y Felin. Priododd Anne Rees o Gilgellisaf ger Llanbedr Pont Steffan, a'u mab oedd Rees Jenkin Jones, Aberdâr. Yr oedd yn ieithydd medrus mewn Groeg, Lladin, a Chymraeg, a bu ei ysgol yn enwog am ddwy genhedlaeth. Nid yw'n annhebyg nad ef oedd y cyntaf i feddwl am gylchgrawn misol i'w enwad, a hynny mor fore â 1835. Disgybl Dr. Priestley ydoedd, ac yr oedd yn gwbl groes i ryfel. Cyhoeddodd *Llythyr ar y Drindod*, 1834; *Llyfr Ysgol Sul*, 1839; *Edifeirwch Gwely Angeu*, 1836; *Galwad ar Ieuenctyd i droi at Dduw*, 1840; *Pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan*, 1846; (gol.) *Crwth Dyffryn Clettwr* (' Amnon '), 1848; *Traethawd y Sabbathau*, 1859; *Chwech o Bregethau*, 1865; a *Casgliad o Salmau a Hymnau*, 1857. Bu farw 19 Rhagfyr 1863. Brawd iddo oedd Rees Jones, (1797 - 1844).

## Awdur

**Y Parchedig Thomas Oswald Williams**, (1888 - 1965)

## Ffynonellau


*Yr Ymofynnydd*, 1851, 198; 1879, 270

*Christian Reformer*, 1852, 617

*Yr Athraw*, Mehefin 1867, 121-5

*The Unitarian Students at the Presbyterian College, Carmarthen ... 1796–1901* (1901), 30

*Oriel Coleg Caerfyrddin* (1909), 44


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733504


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu